## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar 23ain Mai 2001 am 10.00a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J. Butterfield, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones (dirprwy ar ran S. Thomas), F.D. Jones, G. Jones, M.M. Jones (dirprwy ar ran M.Ll. Davies), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, W.G. Thomas, A.J. Tobin, W.R. Webb (Sylwedydd), C.H. Williams, P.O. Williams a R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Clerc y Sir, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pen Swyddog Cynllunio (Y De), Pen Swyddog Cynllunio (Y Gogledd), Pen Swyddog Cynllunio (Polisi) a'r Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, M.Ll. Davies, J.R. Hughes, K.P. Stevens, S. Thomas a K.E. Wells.

### 98. PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd F.D. Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.*

### 99. PENODI IS-GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd R.W. Hughes yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

### 100. EITEMAU BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys er trafodaeth yr eitem ganlynol a oedd angen sylw brys:-

Dysglau Lloeren mewn Ardaloedd Cadwraeth

### 101. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Cynllunio | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2001/0198/PO | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Mr. a Mrs. D. Griffiths, 18 Abbey Court, Dinbych)<br>Datblygu tir trwy adeiladu bynglo un llawr a newid mynedfa bresennol i gerbydau (cais amlinell) ar dir yng nghefn Llys Myfyr, Ffordd Rhuthun, Dinbych. |

| | |
|---|---|
| 01/2001/0222/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd a Babtie Drainage Consultants)<br>Adeiladu 5 (4 llofft) ty annedd a modurdy cysylltiedig, newid mynedfeydd i gerbydau yng nghyffordd St. David’s Lane a Park Street, adfer muriau presennol i'r uchder blaenorol a theneuo corun Derw Holm a warchodir dan Orchymyn Gwarchod Coed ar safle cyn Ystrad House, Park Street, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amodau canlynol diwygiedig rhifau 4, 5 ac 13:-<br>4.Ni chaniateir cychwyn gwaith ar uwchadeilwaith unrhyw dy annedd nac unrhyw furiau eraill ar y safle, gan gynnwys muriau terfyn, nes bydd math y brics a charreg, morter a chopin a fwriedir eu defnyddio wedi eu cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ymgymerir gyda'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.<br>5.Ni chaniateir cychwyn ar unrhyw waith mewn cysylltiad gydag adeiladu siliau ffenestr, manylion brics uwchben ffenestri, cerrig pafin cloc, cyrbau a thirweddu caled arall nes bydd y manylion wedi eu cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ymgymerir gyda'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwyir.<br>13.Derw Holm i'w chadw fel rhan o'r datblygiad a ganiateir trwy hyn, i'w gwarchod yn ystod y gwaith o glirio'r safle ac adeiladu gyda ffens 1 medr o uchder 1 medr y tu hwnt i ffiniau pellaf ehangiad y canghennau, neu yn unol â chynllun arall a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ni ddylid llosgi na dodi ar y ddaear rhwng boncyff y goeden a ffens o'r fath unrhyw ddeunydd adeiladu neu erthyglau eraill o unrhyw ddisgrifiad, ac ni ddylid 'chwaith godi na gostwng lefel y ddaear yn y mannau hyn, na chloddio ffosydd neu ffosydd pibellau, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. |
| 02/2001/0356/TP | Gwaith tocio ar goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed yn 9a Llys y Berllan, Rhuthun<br>YN AMODOL AR amod newydd canlynol rhif 3:-<br>3. Ni chaniateir cychwyn ar y gwaith o docio’r coed nes bydd y gwaith wedi ei gytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM - i osgoi unrhyw amheuaeth. |
| 03/2001/0246/PF | (Datganodd y Cynghorydd A.J. Tobin ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>Codi estyniad warws un llawr i ffatri bresennol a chynllun tirweddu cysylltiedig yn Smurfit Print (UK), Berwyn Works, Ffordd Caergybi, Llangollen<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig canlynol rhifau. 4 a 7 ac amod newydd rhif 5:-<br>4. Ni ddylid defnyddio'r estyniad arfaethedig nes bydd manylion y canlynol oll wedi eu cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi eu gweithredu yn llawn:<br>a)Mesurau i leihau swn a gynhyrchir gan gerbydau/gweithgareddau sy'n gysylltiedig gyda chasglu a symud ymaith papur gwastraff o unrhyw sgipiau/biniau allanol, gan gynnwys tawelu peirianwaith bacio ar gerbydau.<br>b)Mesurau i leihau swn o'r cwt suglanhau a thrawsnewidiwr, a systemau dwythellau allanol ar do'r adeilad presennol.<br>Dileu amod 5.<br>7.Er gwaethaf y manylion a ddangosir ar Gynllun 2375/01, ni ddylid dechrau defnyddio'r estyniad a ganiateir trwy hyn nes bydd manylion llawn y cynllun tirweddu ar gyfer y safle wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i gynnwys niferoedd a rhywogaethau planhigion; dylid gweithredu’r cynllun yn llwyr yn y tymor plannu cyntaf ar ôl dechrau defnyddio'r estyniad, a dylid adnewyddu unrhyw blanhigion sy'n marw neu'n cael eu symud neu sy'n cael eu niweidio yn ddifrifol o fewn cyfnod 5 mlynedd, gyda phlanhigion o'r un maint a rhywogaeth yn y tymor plannu nesaf. |

5. Ni ddylid gosod unrhyw haenau to neu gladio nes bydd cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei roddi o ran yr union liw allanol a gynigir.
RHESWM - er budd mwynderau gweledol.

05/2001/0355/PF

(Datganodd y Cynghorydd C H Williams ddiddordeb (an-ariannol) yn y cais canlynol)
(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth M. Hughes, Waen Sidan, Carrog, Corwen.)
Adeiladu ty annedd a newid mynedfa bresennol i gerbydau ar dir yn cyffinio Maesywaen, Carrog, Corwen.
Mae'r argymhelliad yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad Adran 106 o fewn 6 mis o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, yn rheoli cost gychwynnol y ty annedd (gan gynnwys y pris gwerthu wedi hynny) ynghyd â meini prawf cymhwyso ar gyfer deiliadaeth yr eiddo i bobl sy'n bodloni meini prawf angen lleol Polisi H8. Os na chwblheir yr ymrwymiad bydd y cais yn cael ei ystyried yn erbyn y polisïau a'r ystyriaethau perthnasol ar y pryd. Byddai tystysgrif penderfyniad cynllunio ond yn cael ei chyflwyno ar ôl cwblhau Ymrwymiad Adran 106.
YN AMODOL AR amod diwygiedig canlynol rhif.3:-
3.Ni ddylai neb fyw yn yr annedd nes bydd y fynedfa a'r trefniadau parcio a ddangosir ar Ddarlun 1993.3a, wedi eu cwblhau yn llwyr, i gynnwys parcio a throi cerbydau ar gyfer personau anabl.

09/2001/0235/PF

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth yr ymgeisydd)
Newid defnydd arfaethedig tir amaethyddol i lunio man i geffylau a chodi bloc stablau sengl yng Nglan Yr Afon, Bodfari, Dinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif.2 ac amod newydd rhif .5:-
2. Dylid defnyddio'r man ceffylau a'r stabl yn unig ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig gyda mwynhau'r annedd cyffiniol Glan yr Afon, ac nid ar unrhyw adeg ar gyfer dibenion busnes neu fasnachol.
5.Ni chaniateir unrhyw ffensys, naid, neu rwystrau eraill ar yr ardal ceffylau heb gymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw i'r manylion.
RHESWM - er budd mwynderau gweledol.

09/2001/0236/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth yr ymgeiswyr)
Adeiladu estyniad i dy annedd yng Nglan Yr Afon, Bodfari, Dinbych.

15/2001/0186/PO

(Ar ôl ystyried pum llythyr ychwanegol oddi wrth dri o drigolion unigol, Cymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Ardal a Chyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl).
Datblygu 0.1 ha. O dir trwy adeiladu ty annedd a ffurfio mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinell) ar dir yn cyffinio Cam-Yr-Alyn, Ffordd Llandegla, Llanarmon yn Iâl, Yr Wyddgrug.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif.5 ac amod newydd rhif .11 a nodyn newydd i'r Ymgeisydd:-
5.Ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes bydd manylion llawn y fynedfa wedi eu cyflwyno er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys ymlediad gwelededd, graddiant, lefelau a thirweddu y tu hwnt i'r ymlediad gwelededd, a bod cymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol yr Awdurdod wedi ei dderbyn ar y manylion.
RHESWM - er budd diogelwch y briffordd.
11.Mae'r cynllun safle a gyflwynwyd a'r disgrifiad ar y raddfa 1: 1000 wedi ei dderbyn ar gyfer dibenion dangos yn unig, ac nid yw unrhyw gyfeiriad at fynglo dormer yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn.
RHESWM - er budd mwynderau preswyl cyffiniol a phreifatrwydd ac er mwyn esbonio beth sydd wedi ei gymeradwyo.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Cynghorir yr ymgeisydd i drafod syniadau bras y ty annedd arfaethedig gyda'r swyddog achos cyn cyflwyno

| | |
|---|---|
| | cynlluniau manwl yn ffurfiol, yn enwedig er mwyn sicrhau bod graddfa a dyluniad a deunyddiau o safon uchel ac yn addas i'r ardal. Fe'ch cynghorir i gyfarfod y Swyddog Achos yn yr Adain Rheoli Datblygu er mwyn trafod trefniadau mynediad, manylion dyluniad a'r berthynas gyda'r eiddo cyffiniol yn arbennig. |
| 16/2001/0373/PO | Adeiladu dau dy annedd ar wahân (cais amlinell) ar dir yn cyffinio Cysgod Yr Yd, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun. |
| 22/2001/192/PF | Adeiladu modurdy domestig ar wahân ar gyfer tri cherbyd yn Green Cottage, Gellifor, Rhuthun. |
| 23/2001/0031/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth asiant yr ymgeisydd)<br>Gosod 6 charafán deithiol ychwanegol a phebyll cysylltiedig (cyfanswm o 12 carafán deithiol a safle gwersylla a ganiatawyd ar apêl dan gôd rhif 34/3243), cynigion tirweddu a newid mynedfeydd presennol i gerbydau a cherddwyr yn Caer Mynydd Caravan Park, Saron, Dinbych.<br><br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhifau. 4, 7 a 9 ac amod newydd rhif 8:-<br>4. Ni chaniateir gadael unrhyw gerbydau neu offer, offer barbeciw na strwythurau carafán ar unrhyw adeg ar y tir wedi ei ymylu mewn gwyrdd ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y Dystysgrif hon.<br>7.Dylid lleoli pob carafán deithiol yn y mannau a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd rhif cyf 4309/7/A.<br>9.Ni ddylid lleoli unrhyw un o'r carafanau ychwanegol nes bydd manylion y newidiadau i'r fynedfa, gan gynnwys gostwng y gwrych o boptu i'r fynedfa wedi eu cyflwyni i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid ymgymryd â'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn caniateir unrhyw garafanau ychwanegol ar y safle.<br>8.Ni chaniateir goleuadau ar unrhyw ran o'r safle ar wahân i mewn cydymffurfiad llym gyda manylion a gyflwynir er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i gynnwys dyluniad, uchder a lleoliad, dwysedd golau a chwfl, ac ni ddylid gweithredu unrhyw oleuadau a gymeradwywyd nes bydd cymeradwyaeth ffurfiol ysgrifenedig wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod. Ni chaniateir gweithredu unrhyw oleuadau a ganiateir rhwng hanner nos a 0600 ar unrhyw ddiwrnod.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd<br>Fe'ch cynghorir i gysylltu gyda'r Swyddog Achos yn yr Adain Rheoli Datblygu i drafod manylion y tirweddu a'r goleuadau cyn cyflwyno'r cynlluniau angenrheidiol i gydymffurfio gydag amodau'r caniatâd hwn. |
| 23/2001/0032/PF | Adeiladu adeilad mwynderau newydd (toiled a golchfa) a gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig yn Caer Mynydd Caravan Park, Saron, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amod newydd canlynol rhif 6:-<br>6.Ni ddylai fod unrhyw oleuadau allanol ar yr adeilad hwn ar wahân i 'r hyn sy'n cydymffurfio gyda manylion a gyflwynir er ystyriaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i gynnwys dyluniad, lleoliad, dwysedd a chwfl, ac ni ddylid gweithredu unrhyw oleuadau rhwng hanner nos a 0600 ar unrhyw ddiwrnod.<br>RHESWM - er bydd mwynderau gweledol. |
| 30/2001/0181/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth yr ymgeisydd - mynedfa i aros fel a gyflwynwyd)<br>Dymchwel bwthyn presennol a chodi adeilad newydd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau yn Nolwar, Trefnant, Dinbych.<br>YN AMODOL ar y nodyn newydd canlynol i'r ymgeisydd:<br>Bydd angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer unrhyw waith islaw, uwchben neu yn cyffinio cwrs dwr. Nodwch os gwelwch |

yn dda y bydd y datblygiad yn cael ei ddraenio ar system ar wahân. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Babtie New Development Consultants ar 01745 805815 neu e-bost -mail: babtie@denbigh.com
Ni chaniateir unrhyw gysylltiad gyda'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb ganiatâd ac arolygaeth Babtie New Development Consultants. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Babtie New Development Consultants ar 01745 805815 neu e-bost babtie@denbigh.com
Tynnir eich sylw at Nodiadau Priffyrdd Atodol. 1, 3, 4, 5 a 10.sydd ynghlwm.
Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991)
Tynnir eich sylw at y nodiadau sydd ynghlwm ar geisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan droed drois lwybr/ymyl da Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.

40/2001/0331/PF

Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth yr ymgeisydd)
Mewnforio deunydd anadweithiol i godi lefel yr ardd gefn yn Elwy Crossing Cottage, Ffordd Llanelwy Rhuddlan, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif.3, amodau newydd. 4 a 5 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd:-
3.Ni ddylid cychwyn ar unrhyw ddatblygiad nes bydd cynllun tirweddu caled a meddal wedi ei gyflwyno i a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a dylai'r cynllun gynnwys manylion:
(a) holl goed presennol, gwrychoedd, prysgwydd a llystyfiant arall ar y tir, manylion unrhyw rai i'w cadw a mesurau i'w gwarchod yn ystod y datblygiad.
(b) coed, gwrychoedd, prysgwydd neu lystyfiant newydd arfaethedig gan gadarnhau rhywogaeth, nifer a lleoliad a'r amser pan fwriedir eu plannu;
(c)gwaith cloddio arfaethedig, graddiant a thwmpathu tir a newidiadau yn y lefelau, cyfliniad terfynol a pherthynas y twmpath meddal gyda'r llystyfiant presennol a'r tir o gwmpas.
4.Dylid gwarchod unrhyw goed a gwrychoedd i'w cadw fel rhan o'r datblygiad a ganiateir trwy hyn yn ystod y gwaith o glirio'r safle ac adeiladu gan ffens 1 medr o uchder wedi ei osod 12 medr y tu hwnt i bwynt pellaf ehangder y canghennau,neu yn unol â chynllun amgen a gytunwyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ni ddylid dodi unrhyw ddeunydd adeiladu na'i losgi ar y tir rhwng boncyff y goeden neu wrych a ffens o'r fath, ac nid ddylid codi neu ostwng lefel y tir yn y mannau hyn, ac ni ddylid cloddio ffosydd neu ffosydd pibellau heb ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.
5.Dylid ymgymryd â'r holl blannu, hadu, gweirio, ffensio, adeiladu unrhyw furiau a thriniaeth arall a gynhwysir yn y manylion a gymeradwywyd yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad a dylid plannu coed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw neu'n cae eu symud neu sy'n dioddef anaf neu afiechyd difrifol, yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o rywogaeth a maint tebyg.
Nodyn newydd i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir i gysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglyn â'r angen am drwydded ar gyfer mewnforio a thipio deunydd anadweithiol ar y safle.

41/2001/0251/PF

Newid defnydd swyddfa bost i ffurfio estyniad i dy annedd presennol yn Swyddfa Bost Bodfari, Bodfari, Dinbych.
Gofynnodd y Pwyllgor hefyd y dylid cysylltu gyda'r Swyddfa Bost o safbwynt cyfleusterau amgen ym mhentref Bodfari.

43/2001/0320/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd)
Dymchwel rhan o fur terfyn carreg blaen a ffurfio mynedfa i gerbydau a thir caled yn 5 Ffordd Talargoch, Prestatyn.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig/newydd. 3 a 5 a nodiadau i'r ymgeisydd:-

3. Dileu ”a the section of stone boundary wall to the south of the access has been lowered to 1m in height”.
5. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais, cyfyngir y fynedfa i gerbydau ganiateir trwy hyn i 3m o led ac ni ddylid gostwng uchder y mur terfyn carreg presennol i dde'r fynedfa arfaethedig ar hyd tu blaen yr eiddo.

RHESWM - er budd cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.
Nodiadau i'r ymgeisydd - tynnir eich sylw at Nodiadau Atodol Priffyrdd rhifau Nos. 1, 3, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at y nodiadau sydd ynghlwm ar geisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr troed/ymyl dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.

43/2001/0322/PF Newid defnydd adwerthu Dosbarth A1 i ffurfio estyniad i gaffi-bar/bwyty (Dosbarth A3) yn 147 - 151 Stryd Fawr a gosod ffrynt siop newydd yn 145 Stryd Fawr, Prestatyn.
YN AMODOL ar amod newydd canlynol rhif.6 - Mynediad i'r Anabl:-
6.Cyn cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn, rhaid cyflwyno cynllun yn darparu mynediad i bobl anabl i'r adeilad a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid gweithredu'r cynllun cyn defnyddir y datblygiad a ganiateir trwy hyn am y tro cyntaf.

43/2001/0338/PC Cadw ty gwydr yng nghefn ty annedd (cais ôl-weithredol) yn 2 Clwyd Avenue, Prestatyn.

43/2001/0417/PF (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn)
Adeiladu estyniadau un llawr to goleddf i ochr ac yng nghefn ty annedd yn 1 Graham Avenue, Prestatyn.

45/2001/0325/PF (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol gan y Pennaeth Priffyrdd)
Adeiladu 2 uned adwerthu un llawr a darparu ardal parcio/gwasanaethu cysylltiedig yn Shops Site yn cyffinio Aldi, Wellington Road, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 5 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
5.Ni chaniateir i unrhyw uned sengl a ganiateir fod yn fwy na 450 medr sgwâr mewn arwynebedd llawr ac ni ddylid defnyddio'r unedau i werthu bwyd, nwyddau hwylustod na nwyddau cymharu oni fo'n ategol i'r prif ddefnydd adwerthu oni chytunir hynny yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Nodiadau i'r ymgeisydd - Ni chaniateir unrhyw gysylltiad gyda'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb gymeradwyaeth ymlaen llaw a goruchwyliaeth Babtie New Development Consultants. Am wybodaeth bellach, cysylltwch gyda Babtie New Development Consultants ar 01745 805815 neu e-bostmail: babtie@denbigh.com.
Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhifau. 1, 3, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991).

45/2001/0405/PF Newid defnydd o uned adwerthu wag i amgueddfa ddifyrion weithredol (Dosbarth D1) yn Uned F, Pentre'r Plant, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl.
YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig canlynol:-
Penderfynodd y pwyllgor y dylai'r amodau adlewyrchu yn gryf y farn y dylid defnyddio'r uned fel amgueddfa a bod yr holl arddangosfeydd yn rhai sefydlog ac na ddylai unrhyw fath o hapchwarae fod ar gael. Gofynnwyd ymhellach bod aelodau lleol yn cael eu cysylltu ar eiriad yr amodau diwygiedig cyn cyflwyno tystysgrif.

Ymatalodd y Cynghorydd N Hughes rhag pleidleisio.

| | |
|---|---|
| 43/2001/0410/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn) Newid defnydd siop Dosbarth A1 yn fflat oll-gynhwysol ar y llawr gwaelod a newidiadau allanol yn 12 Station Road, Prestatyn. |
| 45/2001/0403/PO | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd ac Asiantaeth yr Amgylchedd)<br>Datblygu 0.49 hectar o dir trwy adeiladu unedau diwydiant ysgafn un llawr ac ailwampio adeiladau presennol (Dosbarth B1). Adeiladu 3 colofn Teledu Cylch Cyfyng (cais amlinell) yn Nepo Cyngor Sir Ddinbych, , Ffordd Las, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amod canlynol diwygiedig rhif 1 ac amod newydd 9 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd:-<br>1.Ychwanegu "a CCTV columns" ar ôl "buildings".<br>9.Dylid cyfyngu mynediad i gerbydau i'r datblygiad i'r fynedfa bresennol trwy Barc Fforddlas a dylid cau'r fynedfa bresennol yn union oddi ar Fforddlas ger 66 Fforddlas yn barhaol ac adfer y llwybr troed cyn dechrau defnyddio'r datblygiad a ganiateir trwy hyn. Dylid cyflwyno manylion cau'r fynedfa ac adfer y llwybr i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y datblygiad.<br>RHESWM - i sicrhau bod mynedfa o safon briodol yn cael ei defnyddio ar gyfer y datblygiad.<br>Nodiadau i'r Ymgeisydd - Cynghora Asiantaeth yr Amgylchedd y bydd angen eu caniatâd ar gyfer unrhyw waith neu strwythurau o fewn 7m i ben y dorlan ar Rhyl Cut ger y safle.<br>Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn cynghori gan fod y safle yn agos at ardal a ddefnyddir i adael deunydd gwastraff (Tomen Y Rhyl) byddai'n ddoeth archwilio presenoldeb nwy tirlenwi ar y safle. |

(ii) Gwrthod

| <u>Rhif y Cais.</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 45/2001/0330/PF | Newid defnydd uned adwerthu yn arcêd difyrion yn Uned A, Pentre'r Plant, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl. |

*(b) gohiriwyd y ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u>. | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 16/2001/0366/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd)<br>Ty annedd newydd arfaethedig yn lle annedd presennol yn Hillside, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.<br>RHESWM - disgwyl am fanylion pellach ar ddylunio, o ystyried y lleoliad amlwg o fewn yr AHNE. |
| 45/2001/0300/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Swyddog Cadwraeth)<br>Adeiladu estyniad to gwastad i'r llawr cyntaf a dihangfa rhag tân newydd yng nghefn 17 Water Street, Y Rhyl.<br>RHESWM - i archwilio'r effaith ar Fenter Treftadaeth Trefwedd. |

*(c) gohiriwyd y cais canlynol er mwyn galluogi ymgymryd ag ymweliad safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u>. | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 43/2001/0095/PR | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, J.P. a C.M. Pearson, 42 Berwyn Crescent, Ecolegydd y Sir, Mr. & Mrs. Hannaby, 44 Berwyn Crescent)<br><br>Manylion 230 ty annedd, ffyrdd mynediad, tirweddu a chynllunio man agored cyhoeddus a gyflwynwyd yn unol ag Amodau 1, 5, 8, 12, 13 a |

16 ar gas cynllunio amlinell cyf: 43/2000/250/PO yng Nghyn-safle Tower Beach, Victoria Road, Prestatyn.
(RHESWM - i ystyried y pynciau a godwyd yn y llythyrau gwrthwynebu sy'n berthnasol i gais materion neilltuedig. Yn benodol, y berthynas rhwng y datblygiad ac eiddo presennol yn Berwyn Crescent.

**102. DOSBARTHIADAU YSGOL SYMUDOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn hysbysu'r aelodau o'r angen am ganiatâd cynllunio ar gyfer lleoli dosbarthiadau symudol/dros dro ar dir y Cyngor Sir.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**103. CYNLLUN DATBLYGIAD UNEDOL COLWYN - DRAFFT YMGYNGHOROL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am ymateb y Cyngor i ddrafft ymgynghorol CDU Conwy.

Cyflwynodd y Pen Swyddog Cynllunio (Polisi) yr eitem hon ac ateb cwestiynau'r Aelodau.

***PENDERFYNWYD** anfon adroddiad y Pwyllgor Cynllunio at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel ymateb y Cyngor hwn i CDU drafft Conwy.*

*Bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu:*

*(i) polisi ST8 ar y safle cyfle i'r dwyrain o Abergele, fel a fanylir ym mharagraff 3.1.4 o'r adroddiad hwn;*

*(ii) polisi IND4 ar ddatblygiad cyflogaeth graddfa fawr, fel a fanylwyd ym mharagraff 3.5.4 o'r adroddiad hwn.*

*(iii) polisi E6 ar Ardaloedd Gwerth Tirwedd fel a fanylwyd ym mharagraff 3.3.4 o'r adroddiad hwn.*

***PENDERFYNODD** yr Aelodau ymhellach:*

*(a) Gefnogi cynnig tir Cyflogaeth Tir Llwyd Bae Cinmel yn amodol ar (a) gwelliannau cysylltiedig i'r rhai a gynigir ar St Asaph Avenue hefyd yn cael eu gwneud ar hyd yr A525 Croesffordd Borth i gylchfan Rhuddlan gyda'r A525 (b) bod traffig (yn enwedig cerbydau trwm) o ddatblygiad Tir Llwyd yn cael eu rhwystro rhag cae mynediad o'r A55 trwy'r gyfnewidfa ym Modelwyddan ac yna ar yd C47 a elwir "Ty Fry" (c) bod cyfyngiad trymder yn cael ei osod ar C47 i rwystro cerbydau HGV rhag ei defnyddio, a*

*(b) gofyn bod dynodiadau cadwraeth natur/safleoedd bwywyd gwyllt ar forfa heli Afon Clwyd yn CDU Sir Ddinbych - ochr ddwyreiniol - yn cael eu cyfateb gan bolisïau amddiffyniad amgylcheddol tebyg ar yr ochr orllewinol.*

**104. DRAFFT YMGYNGHOROL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU - NODYN CYNGOR TECHNEGOL DIWYGIEDIG 18 - CLUDIANT**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes).

Dywedodd y Pen Swyddog Cynllunio (Polisi) bod yr adroddiad wn wedi ei lunio mewn ymgynghoriad gyda Phriffyrdd y Sir ac y byddai hyfforddiant mewnol ar effaith y TAN hwn yn cael ei drefnu.

***PENDERFYNWYD** diolch i'r swyddogion am yr adroddiad a'i anfon at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel ymateb y Cyngor hwn i TAN drafft 18 (Cludiant).*

**105. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn

gofyn i'r Aelodau gymeradwyo ymweliadau safle yn deillio o Eitem rhif 2 ar y Rhaglen, i'w cynnal ar ddydd Mercher 30ain Mai 2001 ac yn eu hysbysu o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *er gwaethaf argymhelliad y swyddog, cynnal yr ymweliad safle a gymeradwywyd ar ddydd Mercher, 6ed Mehefin 2001.*

**106. RHESTR O GEISIADAU WEDI EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo dan awdurdod dirprwyedig rhwng 7fed Ebrill 2001 a 4ydd Mai 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**107. DYSGLAU LLOEREN MEWN ARDALOEDD CADWRAETH**

(Ystyriwyd y mater hwn fel un brys, gyda'r Cadeirydd wedi rhoi rhybudd ar ddechrau'r cyfarfod).

Dosbarthwyd adroddiad gwybodaeth arbennig gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yn y cyfarfod, yn hysbysu'r Aelodau o'r ymarfer rheoli rhyngweithiol yn Ninbych yn benodol, a chefndir deddfwriaethol y mater hwn yn gyffredinol. Hefyd, derbyniodd yr Aelodau lawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol//DETR “A householder’s planning guide for the Installation of Satellite Television Dishes”.

***PENDERFYNWYD*** *-*

*(a) derbyn yr adroddiad;*

*(b) bod swyddogion yn cysylltu gyda'r Diwydiant Dysglau Lloeren, yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i gynghori cwsmeriaid ar reolau cynllunio, a*

*(c) bod holl Gynghorwyr eraill yn cael copi o'r Adroddiad Gwybodaeth a llyfrynnau a ddosbarthwyd yn y Pwyllgor Cynllunio.*

**108. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 8 o Ran 1 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.*

**109. BRYN DETHOL, LLANGOLLEN**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd eisoes) yn nodi y derbyniwyd apêl yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i wrthod cais cynllunio rhif. 3/ 2000/1010/PF yn groes i argymhelliad y Swyddog.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a phenodi ymgynghorydd cynllunio allanol i gynrychioli'r Awdurdod yn ymchwiliad apêl Bryn Dethol yn amodol ar ddyrannu cyllid gan y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35p.m.

*************